4.35

# CAN ALARUS,

YN RHODDI HANES AM Y

## STEAM-PACKET, COMET,

YR HON OEDD

AR EI THAITH O INVERNESS I GOUROCK,

*YN SCOTLAND,*

Ac ynghylch tri o'r gloch boreu dydd Gwener, y 22ain o Hydref, 1825, Llong arall o'r enw Ayr a ddaeth yn nerthol yn ei herbyn, a'r Comet a ddrylliwyd, ac ynghylch Tri Ugain o wyr a foddwyd.

---

*I'w chanu ar "Belisle March."*

---

"Onid oes amser terfynedig i ddyn ar y ddaear?"

---

A GYFANSODDWYD DROS D. AMOS.

I.

GYMRY tirion a mwyneiddlon yn gyson oll i gyd,
Dewch yn gryno oll i wrando heb beidio trwy y byd;
Dyma rybudd llym o'r newydd i'n beunydd oll yn awr,
Geisio cymmod yn y Duwdod, cyn cael ein torri lawr;
Damweiniau maith o hyd sydd yma yn y byd,
Sy'n gwneud llawer teulu tyner mewn prudd-der ar bob pryd,
Arall etto i'n rhybuddio gan wneud i'n gwyno'n gaeth,
A ddygwyddodd ar y moroedd yn y dyfnderoedd maith,
Ac yn mis Hydref bu ar noswaith dywyll ddu,
Bydd cŵyno'n bod am dano tra byddo'n daear ni,
Sef i angeu yn ddiammeu i ddwyn eneidiau drud
Dri ugain mewn dewr agwedd yn wrol yr un pryd.

X20520265

II.

Dwy long ydoedd ar y moroedd yn teithio'r llynoedd llawn,
*Ayr* a *Comet* oedd eu henwau, hwy aent yn gyflym iawn,
Ac wrth *Anwedd*, O! mor rhyfedd y teithient ar eu hynt,
Aent yn ngwrthol i'w eu gilydd, 'doedd gwa'niaeth am y gwynt;
Pan oeddynt ar y don, yn teithio'n ddigon llon,
Hwy aent ar draws eu gilydd, 'r hyn sydd yn brudd-der bron,
A'r *Comet* hithau aeth yn ddarnau yn nganol tonnau'r môr,
A thri ugain yno foddodd, a soddodd dirfawr 'stor;
Roedd llawer iawn o wyr goruchel yn ein tir,
A mwynaidd iawn o ddifri yn teithio ynddi'n wir,
Y rhai hynny gaent eu boddi a'u soddi dan y dwr,
Yr un funud oll gan fyned ger bron y frawdle'n siwr.

III.

Och fath ddamwain i dri ugain o ddynion cywrain cu,
Gael wynebu o'r fan hynny o flaen ein Harglwydd ni;
Cyfoethogion fel tylodion, ynghyd â'r dynion doeth,
Heb arbediad ar [illegible]'arawiad gaent fyn'd i'r farn yn noeth,
Ni safiwyd dim o'r gwyr, ond un-ar-ddeg yn glir,
O'r holl rai oedd yn teithio a hwylio ynddi'n wir,
Yn ol iddi gael yr ergyd cyn pen tair munud aeth
O'r golwg dan y dyfroedd yn nghanol moroedd maith;
Gerllaw i *Gourock* dref dygwyddodd mewn oer lef,
Wrth ddyfod o *Inverness* o flaen yr awel gref,
A'r holl bobloedd hyn ar gyhoedd a foddodd yn y lli,'
Am dri o'r gloch y borau heb ammeu'n drist y bu.

IV.

Nid o achos bod hi'n dywyll yr aeth yn gandryll mân,
Yr holl ddynion gadwyd yno all dystio hynny'n lân,
Ond yn ceisio oent yn gryno i *roundio* darn o dir
Ni's gallent wel'd ar gyhoedd nes oedd rhy hwyr yn wir,
A bwrw wnaent yn glau, mae'n ofid mawr heb lai,
Yn gaeth ar draws eu gilydd, mae'n gystudd i bob rhai,
A phan glywai y gwyr hynny oedd ynddi'r ergyd mawr,
Dyfod allan oll yn fuan o'r caban wnaent yn awr,
Gan geisio cadw'r dwr, o'r llong a wnai pob gwr
Er hynny er eu trallod i'r gwaelod aeth yn siwr;
Ac och ydyw ini heddyw i gofio'r cyfryw bryd,
Pan gaent yno eu trosglwyddo at orsedd Barnwr byd.

V.

Dau ddyn hynod na fu'n briod ond pum diwrnod gwiw
Aent yn sydyn mewn munudyn er dychryn o flaen Duw,
Mewn mawr arswyd fe'u cymmerwyd, hwy foddwyd yn y fan
Ac yno hwy ni's cawsant ryw lwyddiant ddo'd i'r lan,
Gwyr eraill hardd eu gwawr oedd yn y llong yn awr
Gollasant eu bywydau yn nghanol tonnau mawr,
Un o'r dynion ddaeth trwy ddamwain yn gywrain tua'r tir,
Trwy nofio uwch y tonnau, mae'r geiriau'n ddigon gwir,
Gwraig arall hefyd ddaeth i'r lan o'r dyfroedd llaith,
Ar ddarn o bren yn gymmwys yn gyfrwys iawn y gwnaeth,
Trefn odiaeth hael rhagluniaeth yn wir a ddalai'i phen
A'i dwyn i'r lan yn sydyn fel hyn ar ddarn o bren.

VI.

'Roedd eu criau hwy'n ddiammau, a'u hocheneidiau llawn
Yn alarus a thruenus, ac anghysurus iawn,
'Roent yn bloeddio ac yn ochain a llefain yn y llif
Wrth golli eu bywydau yn nghanol tonnau cryf,
Gan gymmaint oedd eu llef daeth bâd o Gourock dref
Yn glau i'w cynorthwyo trwy nerth yr awel gref,
Rhai oedd wedi cael eu boddi a'u gwely yn y llaid,
Eraill ydoedd uwch y dyfroedd yn lleisio yn ddibaid,
Eu hawydd oedd o hyd, fyn'd iddo oll yn glyd,
I gadw eu bywydau eu goreu wnaent i gyd,
Gwnaent eu mheulyd, braidd 'run funud wrth geisio myn'd i'r lan
Ond ychydig nifer oeddynt i gyd mewn helynt gwan.

VII.

Pwy all ddirnad ac amgyffred caethiwed rhain i gyd,
Gwel'd y llong yn torri'n ddarnau a hwythau'n gaeth o hyd,
Gwel'd heb ammeu, eu bywydau'n myn'd gydâ'r tonnau mawr,
A'u heneidiau oll yn ebrwydd at orsedd Llywydd llawr,
Pwy galon nad ai'n friw gan bawb o ddynol-ryw,
Wrth gofio gymmaint gawsant fyn'd bant o blith y byw,
Annyoddefol yn wastadol i bawb o'r ddynol hil
Ydyw iddynt gofio'u helynt bu arnynt hwy mor gul,
Bywydau bach a mawr i gyd yn oer eu gwawr,
Pob graddau fel eu gilydd a foddwyd yno 'nawr,
A'u heneidiau oll yn ddiau yr un munudau'n wir,
I wynebu ger bron Iesu i'w barnu oll yn bur.

VIII.

Eu perth'nasau o bob graddau sy'n wylo dagrau'n lli',
Ymgysuront oll yn ddiau yn nghlwyfau'r Iesu cu',
Oll yn gyson byddont foddlon i droion dyfnion Duw,
Gan feunyddiol geisio'n siriol ei gymmorth mwyn a gwiw,
A meddwl oll bob dydd, yn faith mai hwythau fydd
Yn eu canlyn yn dra sydyn i orphwys yn y pridd,
Nid oes gwybod pa ddiwrnod cawn ddyrnod angau'n ddwys,
I'n cymmeryd oll mewn munud i'r bedd mewn dirfawr bwys,
Pan orfydd in' bob rhyw i sefyll o flaen Duw,
I roi cyfrif yn ddiduedd o'n buchedd yma'n byw,
Ac am hynny boed i'r Iesu i roddi i ni ras,
Fel nad ofnom gael brathiadau gan gleddau'r angeu glas.

IX.

Er i'nt gaffael tywydd garw, a marw mewn modd trist,
Ni obeithiwn eu bod heddy' yn canu gydâ Christ,
Oll yn gwledda ar y manna a bwyta gydâ'r Oen,
Yn y fwynaidd ddinas sanctaidd yn beraidd a diboen,
I gyd yn hardd eu gwedd, yn caffael hyfryd hedd,
[illegible] nac [illegible]
O Dduw nefol yn wastadol gwna ninnau'r ddynol hil-
I ystyried bawb am farw gan gadw'r llwybr cul,
Na byddo achos in' o hyd i ofni'r glyn
Gan i'n dyled gael ei dalu gan Iesu ar y bryn,
Gwna ni'n deilwng oll ar gyhoedd o le'n y nefoedd wen
I gyd-ganu dy ogoniant mewn mwyniant fyth. Amen.

DIWEDD.

Jonathan Harris, Argraffydd, Caerfyrddin.